Cyngor Sir Ddinbych – Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mawrth 2026

Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Trosolwg

Teitl	Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol
Polisi ynteu Strategaeth	Polisi
Sefydliad	Cyngor Sir Ddinbych
Adran:	Perfformiad, Digidol ac Asedau
Perchennog	Tîm Rheoli Asedau
Cyfnod Adolygu	24 mis
Awdurdodwyd gan	
Dyddiad	

Rheoli Fersiwn

Fersiwn	Awdur	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
1	Rheoli Asedau CC: Prisio ac Ystadau	Pennaeth Gwasanaeth	Ebrill 2025
2	Rheoli Asedau CC: Prisio ac Ystadau	Grŵp Rheoli Asedau	Mai 2025
3	Rheoli Asedau CC: Prisio ac Ystadau	Tîm Arwain Strategol	Ionawr 2026
4	Rheoli Asedau CC: Prisio ac Ystadau	Cabinet	Mawrth 2026

Cynnwys

Cynnwys 3

1. Cyflwyniad 4

2. Polisi 4

3. Diffiniadau 5

4. Asedau Addas a Dulliau Trosglwyddo 6

5. Y Broses Ymgeisio 9

6. Cyfrifoldebau 13

7. Diffiniadau a Rhestr Termau 14

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i gynnal portffolio eiddo effeithlon a chynaliadwy, gan sicrhau bod lles cymunedau'n cael ei wella drwy gyfranogiad, partneriaethau a chydweithio. Mae'r canlyniadau hyn yn rhan o ymroddiad CSDd i foderneiddio'r Cyngor a'r addewid i gyflawni arbedion effeithlonrwydd i wella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a chyd-fynd ag egwyddor graidd ein Strategaeth Rheoli Asedau 2024 i 2029: *"Byddwn yn darparu'r asedau cywir, yn y lle cywir, ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion darparu gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol, gan ystyried pwy sydd orau i fod yn berchen a gweithredu pob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio."*

1.2. Nod y polisi hwn yw amlygu proses ffurfiol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol, i greu dull tryloyw, cyson a chynaliadwy o weithredu parthed y penderfyniadau hyn.

2. Polisi

2.1. Mae'r polisi hwn ar gyfer hwyluso trosglwyddiadau eiddo i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a sefydliadau'r trydydd sector / cymunedol sydd nid er elw. Mae'n cael ei arwain gan y gymuned ac wedi ei gynllunio i gwrdd â galw'r gymuned am eiddo. Y rhesymeg yma yw y gellir eu defnyddio a'u rheoli'n well gyda sefydliadau arbenigol ar raddfa lai er mwyn bod o fwy o fudd i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

2.2. Yn sgil y pwysau ariannol parhaus y mae Cynghorau yn eu hwynebu, mae'n hollbwysig rheoli adnoddau mewn ffordd gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

2.3. Nod y polisi hwn yw annog grym cymunedol drwy drosglwyddiadau asedau cymunedol. Cynyddu ystod a nifer yr asedau cyhoeddus a reolir gan y gymuned, gan ddarparu sylfaen asedau gynyddol i gymunedau lleol lunio gwasanaethau sy'n addas i'w hanghenion, a chynhyrchu ffynonellau incwm newydd i gynnal gwasanaethau cymunedol lleol a chynnal asedau lleol.

3. Diffiniadau

3.1. Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd pan fydd corff sector cyhoeddus yn trosglwyddo rheolaeth neu berchnogaeth ased eiddo i gyngor dinas / tref cymuned neu sefydliad trydydd sector / cymunedol sydd nid er elw.

3.2. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i drosglwyddo asedau addas i drydydd parti; caiff pob cynnig ei adolygu a'i ystyried gan Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn ôl ei haeddiant ei hun, ac mae'n rhaid i hyn fod er budd pennaf y Cyngor a'r cymunedau lle mae'n gweithredu.

3.3. Mae'r tir a'r asedau eiddo sy'n eiddo i CSDd yn un o'i brif adnoddau, ond dros amser efallai yr asesir bod rhai ohonynt yn asedau dros ben neu'n asedau sy'n cael eu tanddefnyddio, ac mae hyn felly'n arwain at benderfyniadau yn ymwneud â gwaredu.

3.4. Yn unol â Chaniatâd Gwaredu Cyffredinol Deddf Llywodraeth Leol 1972, caiff Awdurdodau Lleol ddefnyddio'u disgresiwn i gael gwared ag eiddo dros ben am lai na'r ystyriaeth orau (o fewn "gwerth anghyfyngedig" ag amrywedd mwyaf o £2 miliwn), lle bydd y trafodiad yn hybu lles economaidd, cymdeithasol ac / neu amgylcheddol yn yr ardal leol.

3.5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi hwb i wella lles economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

4. Asedau Addas a Dulliau Trosglwyddo

4.1. *Nodi*

4.1.1 Dan amgylchiadau arferol caiff asedau eu gwaredu (gwerthu) ar sail fasnachol ac mae'n rhaid i'r Cyngor lwyddo i gael yr ystyriaeth orau (pris) y gellir yn rhesymol ei gael. Fodd bynnag, yn yr amgylchiad lle mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn berthnasol, gellir rhoi ystyriaeth i eiddo a all hefyd fod o fudd cymunedol. Caniateir hyn yn ôl darpariaethau 'Caniatâd Gwaredu Cyffredinol', Rhagfyr 2003, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac, yn ogystal, caniateir gwaredu'r ased am bris sy'n is na gwerth y farchnad.

4.1.2 Wrth geisio nodi ased addas, bydd CSDd yn ystyried yr effaith ar y bobl sy'n byw yng Nghymru – 'rŵan ac yn y dyfodol.

4.1.3 Lle gellir dangos tystiolaeth bod gwelliant i les economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal, gall hyn fodloni'r gwerth gorau hyd yn oed os nad yw'r ased wedi sicrhau'r derbyniad cyfalaf mwyaf posibl.

4.1.4 Ystyrir bod asedau yn rhai dros ben, ac ar gael o bosibl ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, dim ond os yw'r sawl sy'n eu derbyn yn Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned neu'n sefydliad y trydydd sector / cymunedol sydd nid er elw, ac os mai "Na" yw'r ateb i'r 4 cwestiwn allweddol canlynol:

- A oes derbyniad cyfalaf ar gyfer yr ased hwn wedi ei glustnodi eisoes i gefnogi prosiect corfforaethol, neu a yw'r eiddo'n cael ei ddal gan CSDd i ryddhau gwerth datblygu yn y dyfodol?
- A oes angen yr ased ar y Cyngor i gefnogi ei ofynion / amcanion gweithredol ei hun?
- A oes angen sefydliad penodol ar y Cyngor i reoli'r ased er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Cyngor, ac a oes perthynas waith wedi ei sefydlu eisoes rhwng y partïon?
- A oes unrhyw reswm arall pam na ddylai'r ased fod ar gael ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, e.e. o ganlyniad i'w gyflwr, neu a yw'r eiddo'n rhwym wrth ymddiriedolaeth?

4.1.5 Os mai "Oes" yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, gellir datgan bod yr ased yn un dros ben, i'w werthu ar y farchnad agored neu ei ddefnyddio i gyflawni amcan corfforaethol arall.

4.1.6 Mae rhai eiddo sy'n addas o bosibl ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cynnwys y canlynol, ond sylwer nad yw'r rhestr hon yn un gyflawn:

- Mannau chwarae i blant
- Canolfannau cymunedol
- Hen adeiladau dinesig
- Hen ysgolion
- Toiledau cyhoeddus
- Caeau chwaraeon
- Goleuadau stryd
- Atyniadau ymwelwyr / twristiaid

4.1.7 **Cyfyngiadau –** Mae'n bosibl nad yw proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn briodol ym mhob cymuned, a bydd yr ystyriaeth yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a hyfywedd yr ased yn cael ei drosglwyddo. Bydd yn rhaid i Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol gynnig y dewis gorau i CSDd ar gyfer gwaredu, ac mae mathau o drosglwyddiadau i'w gweld yn yr adran nesaf. Os yw Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned yn mynegi diddordeb mewn Trosglwyddiad Ased Cymuned yn ei ardal, rhoddir yr ystyriaeth gyntaf i'r Cyngor hwnnw yn hytrach na sefydliadau newydd sydd â hanes ariannol cyfyngedig.

4.2 *Cyfamodau*

4.2.1 Fe all fod amgylchiadau lle mae cyfamodau caethiwus yn bodoli neu efallai fod yr eiddo'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth a fydd yn cyfyngu ar y defnydd ohono neu'n atal trosglwyddo'r eiddo am lai na gwerth y farchnad i drydydd parti.

4.2.2 Yn y mwyafrif o achosion byddai'n rhaid gwaredu'r ased gyda'r cyfamodau a rhoi gwybod i'r trosglwyddai am eu bodolaeth, a byddai hynny'n indemnio'r Cyngor rhag unrhyw hawliadau yn y dyfodol.

4.2.3 Mewn achosion eithafol gall y Cyngor ystyried cais i'r Gofrestrfa Tir am newid neu ddileu'r cyfamod. Fodd bynnag, oherwydd costusrwydd newid cyfamodau a'r amser hir y mae'n ei gymryd, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gwneid hyn.

4.2.4 Gall y Cyngor gynnwys cyfamodau, mesurau cymryd yn ôl, neu gyfyngiadau ychwanegol i unrhyw drosglwyddiad i ddiogelu buddion Cyngor Sir Ddinbych a sicrhau defnydd yr eiddo yn y dyfodol er budd y gymuned.

4.2.5 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r trosglwyddai ac yn ei gynorthwyo i ddeall goblygiadau a chanlyniadau unrhyw gyfamodau o'r fath yn llwyr.

4.3 *Mathau o Drosglwyddiad*

4.3.1 Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol fel arfer yn golygu trosglwyddo ased am lai na'i werth llawn ar y farchnad. Fodd bynnag, efallai bod nifer o sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosibl; yn yr achos hwnnw, mae nifer o ddulliau gwahanol ar gyfer caniatáu mwy o reolaeth dros yr adeilad. Gall y math o ddeiliadaeth a roddir gynnwys y canlynol:

- **Trwydded i feddiannu** – Mae Trwydded i Feddiannu'n gytundeb personol rhwng y Cyngor (y trwyddedwr) a'r meddiannydd (y trwyddedai), lle mae'r Cyngor yn caniatáu i'r trwyddedai gael meddiannaeth anghyfyngedig o ran o'r eiddo am gyfnod byr, llai na 6 mis fel arfer.

- **Trosglwyddo lesddaliad** – Bydd hyd y brydles yn cael ei ystyried fesul achos unigol gan roi ystyriaeth benodol i gyflwr yr eiddo, amgylchiadau'r prosiect, cryfderau'r ymgeisydd ac addasrwydd yr achos busnes. Fel arfer rhoddir prydles hirach ar sail atgyweirio llawn. Bydd hyn yn trosglwyddo cyfrifoldeb cynnal a chadw ac atgyweiriadau oddi wrth y Cyngor i'r lesddeiliad am gyfnod y brydles.

- **Trosglwyddo rhydd-ddaliad** – Trosglwyddo perchnogaeth gyfreithiol gyflawn yr ased. Gall y Cyngor gynnwys cyfamodau, mesurau cymryd yn ôl, neu gyfyngiadau ychwanegol i unrhyw drosglwyddiad rhydd-ddaliad i ddiogelu buddion Cyngor Sir Ddinbych a sicrhau defnydd yr eiddo yn y dyfodol er budd y gymuned.

5 Y Broses Ymgeisio

5.1 Cymhwystra

5.1.1 Y prif sefydliadau sy'n gallu ymgeisio am eiddo sydd ar gael, yn nhrefn blaenoriaeth, yw:

- Cynghorau Dinas, Tref, Cymuned
- Sefydliadau'r Trydydd Sector – Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau annibynnol, anllywodraethol, sy'n cael eu gyrru gan werth a'u hysgogi gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn gyntaf, yn hytrach nag i wneud elw'n unig.
- Grwpiau Cymunedol

5.1.2 Mewn amgylchiadau arferol disgwylir bod y sefydliad sy'n ymgeisio yn sefydledig; fodd bynnag, ystyrir sefydliadau newydd os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer dewis. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys meini prawf llywodraethu, cyfreithiol, ariannol a chynaliadwyedd.

5.1.3 Ystyrir ceisiadau am Drosglwyddo Ased i sefydliadau:

- Sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac sydd â chysylltiadau cryfion â'r gymuned leol a gall aelodau ddylanwadu ar eu gweithrediadau ac ar benderfyniadau a wneir
- Sy'n sefydliadau cymunedol gwirfoddol neu sefydliadau o'r sector cymdeithasol
- Sydd â chyfansoddiad priodol, e.e. elusen gofrestredig
- Sydd â chyfansoddiad sy'n caniatáu perchnogaeth / rheoli adeiladau a / neu ddarparu gwasanaethau
- Sy'n gallu dangos y gallant lywodraethu'n dda
- Sydd â sgiliau a phrofiad digonol i reoli eiddo a darparu gwasanaethau yn unol â phwrpas craidd yr awdurdod a chanlyniadau corfforaethol
- Sy'n gallu dangos polisi amrywiaeth – bydd y defnydd arfaethedig yn cyrraedd rhannau helaeth o'r gymuned a bydd yn gynhwysol
- Sy'n gallu dangos ymrwymiad i fudd cymunedol ac amgylcheddol yn unol ag egwyddorion craidd yr awdurdod.

5.2 Hysbysebu Asedau sydd ar Gael

5.2.1 Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi argymell y dylai cyrff cyhoeddus amlygu argaeledd asedau.

5.2.2 Os yw'r Cyngor yn nodi unrhyw eiddo sy'n addas ar gyfer Trosglwyddiad Ased Cymunedol, hysbysebir yr ased ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a rhoddir hysbysiadau yn y wasg leol am gyfnod o 4 wythnos, yn disgrifio'r ased ac yn darparu dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb.

5.2.3 Derbynnir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau cymunedol a thenantiaid presennol hefyd, lle nad yw'r ased wedi ei hysbysebu'n allanol. Yn yr achosion hyn, ystyrir y cais os bernir bod yr ased yn addas ar gyfer Trosglwyddiad Ased Cymunedol.

5.2.4 Anogir sefydliadau cymwys i gysylltu â'r Cyngor gyda gofynion penodol neu nodi tir neu eiddo penodol sy'n addas ar gyfer Trosglwyddiad Ased Cymunedol, nad yw wedi ei hysbysebu. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Asedau Strategol y Cyngor yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn ag a yw eiddo penodol yn briodol ar gyfer trosglwyddiad ased.

5.3 Mynegi Diddordeb

5.3.1 Mynegi diddordeb yw cam cyntaf y broses, a bydd yn agored am gyfnod o 8 wythnos ar ôl y cam hysbysebu.

5.3.2 Mae'n rhaid i'r sawl sydd â diddordeb gyflwyno mynegiant o ddiddordeb erbyn y dyddiad cau a ddarperir. Bydd hyn yn cynnwys templed sydd wedi ei atodi wrth y polisi hwn, sy'n asesu'r meini prawf cymhwyso.

5.3.3 Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn asesu'r mynegiant o ddiddordeb ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno cais ffurfiol.

5.4 Cais Ffurfiol

5.4.1 Ar y cam hwn bydd gofyn i'r ymgeiswyr lenwi ffurflen Achos Busnes, sydd wedi ei hatodi wrth y polisi hwn, a gellir ei hategu â'r dogfennau canlynol:

- Cyllidebau ariannol manwl, yn cynnwys adroddiadau ariannol hanesyddol
- Tystiolaeth o strwythur llywodraethu neu reoli
- Cynigion ar gyfer y defnydd o'r ased
- Model busnes clir
- Gallu dangos bod yr arian ganddynt i gynnal a chadw'r eiddo yn y dyfodol.

5.4.2 Bydd CSDd yn gweithio gyda'r ymgeisydd ar amserlen resymol ar gyfer cyflwyno'r cais Achos Busnes.

5.5 Gwerthuso

5.5.1 Bydd y ceisiadau'n cael eu gwerthuso a'u cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau i'w trafod. Yn dilyn cyngor gan y Grŵp Rheoli Asedau, dilynir y broses ddirprwyedig o wneud penderfyniadau yn ymwneud â gwaredu eiddo yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.

5.5.2 Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd yn ôl disgresiwn y Cyngor. Bydd CSDd yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus pan wneir penderfyniad ffurfiol gan y Grŵp Rheoli Asedau.

5.6 Trosglwyddo

5.6.1 Ar ôl hysbysu'r ymgeisydd llwyddiannus, darperir llythyr ffurfiol yn amlinellu trosglwyddiad yr ased a'r telerau a gynigir gan y Cyngor. Pan fo'r partïon wedi cytuno ar y telerau, bydd cyfreithwyr yn cael eu cyfarwyddo'n ffurfiol.

5.6.2 Gall amserlenni i gwblhau'r trosglwyddiad ffurfiol gael eu hymestyn weithiau, neu eu hoedi gan nifer o gymhlethdodau, ymholiadau yn dilyn chwiliadau cyfreithwyr, materion yn ymwneud â'r teitl, problemau trydydd parti, capasiti mewnol, arolygon, ac ati.

5.7 Costau Trosglwyddo

5.7.1 Er y trosglwyddir yr ased am lai na'r ystyriaeth orau, bydd y Cyngor yn mynd i gostau drwy'r broses, a disgwylir i'r ymgeisydd dalu'r costau hyn.

- Bydd yn ofynnol cael prisiad annibynnol o "werth anghyfyngedig" yr ased sydd i'w drosglwyddo ar gyfer pob Trosglwyddiad Ased Cymunedol. Mae yna gost i'r prisiad, yn dibynnu ar yr eiddo sy'n cael ei brisio.

- Os diffinnir yr eiddo fel "man agored" dan Adrannau 123 (a) a 127 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n rhaid i'r awdurdod hysbysebu ei fwriadau mewn

papur newydd lleol am 2 wythnos yn olynol ac mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw wrthwynebiadau. Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd dalu cost y cyhoeddi.

- Parthed costau cyfreithiol a chostau syrfëwr rhesymol y Cyngor, cytunir ar gap ar y costau hyn yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos, a bydd treuliau cyfreithiol yn cael eu talu hefyd.

- Unrhyw yswiriant indemniad sydd ei angen.

- Unrhyw dreth stamp neu drethi eraill os ydynt yn berthnasol.

- Costau proffesiynol yr ymgeisydd ei hun.

6 Cyfrifoldebau

6.1 Grŵp Rheoli Asedau

- Mae'r Grŵp Rheoli Asedau yn grŵp o swyddogion sydd â phwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau am drafodion eiddo yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, sy'n cynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro ac Aelod Arweiniol Eiddo. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Asedau Strategol (Landlord Corfforaethol), swyddogion cefnogi eiddo ac arbenigedd pwnc, ac Aelodau Lleol yn bresennol yn y Grŵp hefyd. Mae'r Grŵp yn cyfarfod ar adegau penodedig drwy gydol y flwyddyn.

- Rhoi cyngor ynglŷn â'r penderfyniad asesu mewn modd cyson a theg, gan fanylu ar resymau dros argymell derbyn neu wrthod y cais yn seiliedig ar argymhelliad swyddog Prisio ac Ystadau.

6.2 Tîm Rheoli Asedau

- Nodi asedau addas i'w trosglwyddo.

- Derbyn mynegiannau o ddiddordeb a chynnal adolygiad cychwynnol ohonynt

- Llunio pecyn gwybodaeth ar yr ased, yn cynnwys yr holl ddogfennaeth berthnasol, yn cynnwys y canlynol (heb fod yn gyfyngedig iddynt):
  Pecyn Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys asesiadau risg tân, profion trydanol / nwy, canllawiau ar legionella ac asbestos.

- Sicrhau bod perchnogion newydd yr ased yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Drafftio contract neu brydles addas yn disgrifio prif nodweddion y cytundeb neu'r Trosglwyddiad Ased.

- Cadw cofnodion cywir o brosesau.

- Llunio adroddiad blynyddol o brosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yr ymgymerwyd â hwy.

6.3 Prisio ac Ystadau

- Llunio contract neu brydles derfynol yn manylu ar holl nodweddion y cytundeb neu'r Trosglwyddiad Ased.

6.4 Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau

- Pwerau dirprwyedig o fewn Cyfansoddiad y Cyngor i waredu asedau tir ac adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, â gwerth o hyd at £30,000.
- Pwerau dirprwyedig o fewn Cyfansoddiad y Cyngor i waredu asedau tir ac adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor – mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, a thrwy ystyriaeth yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau – â gwerth rhwng £30,001 a £1,000,000.
  £30,001 - £1,000,000

6.5 Cabinet

Ystyried argymhelliad y Grŵp Rheoli Asedau, mwy na £1,000,000.

7 Diffiniadau a Rhestr Termau

CSDd	Cyngor Sir Ddinbych

7.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/canllaw-trosglwyddir-asedau-cymunedol.pdf

7.2 Rheolyddion a Dogfennau Mewnol

- Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych
  https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/siarter-cdtcc/siarter-cdtcc.aspx

- Proses Waredu Cyngor Sir Ddinbych
- Ffurflen Achos Busnes
- Ffurflen Mynegi Diddordeb